

Ysgol Brynrefail

Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4AD



Pennaeth/Headteacher:

Mr Eifion Jones, BSc.

☎ (01286) 672381

📄 (01286) 672066

✉ swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk

🌐 www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

24ain Dachwedd 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Atodwn i'ch sylw gopi o'r canllawiau gweithredu gan Cyngor Gwynedd y mae'r ysgol yn eu dilyn wrth fonitro a dilyn i fyny presenoldeb disgyblion yn yr ysgol.

Manteisiwn ar y cyfle i'ch hatgoffa bod yr ysgol yn gosod targed o 95% o bresenoldeb ar gyfer disgyblion.

Os yr hoffech drafod unrhyw faterion am bresenoldeb eich plentyn mae croeso i chi gysylltu gyda'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol i wneud apwyntiad trwy rif ffon y swyddfa'r ysgol – 01286 672381.

Yn gywir

Ellen Williams

Dirprwy Bennaeth



Hysbysiad Cosb Sefydlog ar gyfer Absenoldebau Anawdurdodedig

Mae presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd disgyblion yn yr ysgol yn ofyn statudol ac angenrheidiol ar gyfer disgyblion gael manteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Yn ôl y gyfraith, mae'n drosedd os yw rhiant/gofalwr yn methu sicrhau presenoldeb eu plentyn yn yr ysgol a bod yr absenoldeb hwnnw heb ei awdurdodi gan yr ysgol.

Mae adrannau 444A a 444B Deddf Addysg 1996 yn caniatáu bod rhai mathau o absenoldebau anawdurdodedig gael sylw pellach dan orchymyn rhybudd cosb.

Gall hyn arwain at ysgol gyfeirio “**absenoldebau anawdurdodedig**” i sylw'r Awdurdod Lleol yn gofyn am anfon Hysbysiad Cosb Sefydlog i'r cartref.

Cosbau am absenoldebau anawdurdodedig

Cyfnod	Un plentyn	Dau blentyn
Talu o fewn 28 diwrnod	£60 am bob Hysbysiad Cosb Sefydlog	£60 am bob plentyn = £120
Ar ôl 21 diwrnod ac o fewn 28 diwrnod	£120 am bob Hysbysiad Cosb Sefydlog	£120 am bob plentyn = £240
Ar ôl 42 diwrnod	Bydd peidio â talu hysbysiad cosb sefydlog yn arwain at weithdrefnau erlyn a gyflwynir o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996. “Methu sicrhau presenoldeb yn yr ysgol”	Bydd peidio â talu hysbysiad cosb sefydlog yn arwain at weithdrefnau erlyn a gyflwynir o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996. “Methu sicrhau presenoldeb yn yr ysgol”

Bydd y rhybuddion cosb sefydlog yn cefnogi ALI ac ysgolion i sicrhau fod rhieni/gofalwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol i anfon eu plant yn rheolaidd i'r ysgol. Mae'r mesurau hyn yn llym ond credwn fod presenoldeb rheolaidd a phresenoldeb uchel o blaid yr hyn sydd orau i ddisgyblion ac yn fodd iddynt fanteisio'n llawn ar eu cyflawniadau a'u mwynhad o fod yn yr ysgol.

Mae'r polisi yma yn adlewyrchiad cywir o'r ddeddfwriaeth gyfredol ac fel ysgol, mae gennym ddyletswydd i'ch hysbysu chwi fel rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

- Mae manylion a gwybodaeth pellach ar gael gan Cyngor Sir Gwynedd
- Llywodraeth Cymru

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130925-guidance-regular-non-attendance-en.pdf>